



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



18/12/20

Annwyl Rieni ,

I ddechrau oll, ar ddiwedd blwyddyn heriol ac anodd i bawb hoffwn ddiolch o galon i chi fel rhieni am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad gydol y flwyddyn. Bu nifer o newidiadau a chyhoeddiadau byr rybudd yn eich cyrraedd. Er fod nifer o'r penderfyniadau y tu hwnt i'm rheolaeth i fel Pennaeth, diolchaf am eich dealltwriaeth drwy gydol y flwyddyn ac am eich ymateb yn gadarnhaol ac yn sensitif ar bob achlysur. Gyda'n gilydd fe llwyddom i sicrhau fod y plant yn hapus yn dod i'r ysgol ac eu bod wedi setlo'n dda yma. Hefyd, rydym wedi llwyddo fod y plant yn cael cyfle i ddysgu drwy brofiadau cyfoethog; ac yn llwyddo i brofi rhyw fath o normalrwydd.

Diolch o galon hefyd am eich caredigrwydd arferol ac am gefnogi ymgyrch y Cyngor Ysgol i gasglu nwyddau tuag at Fanc Bwyd lleol yn ystod mis Rhagfyr.

I godi'ch calon chi a'r gymuned, ac i'ch rhoi yn ysbryd yr Ŵyl, rydym wedi recordio'r plant yn canu ambell i garol / gân Nadolig ac wedi ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Ewch ati i'w gwyllo. Gallwch hefyd ei wyllo drwy ddilyn y ddolen yma: https://drive.google.com/file/d/1-ixUWUKS6PAXm8lIFZh9e3_08Z5P9gxd/view?usp=sharing

Hefyd, ydych chi wedi gweld fideo prosiect 'Cofiwch Dryweryn' Bl.5a6 ar ein cyfryngau cymdeithasol? Mae Bl.5a6 wedi bod yn astudio hanes boddi Capel Celyn ac wedi creu clip fideo er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hanes trist ac arwyddocaol yma. Os nad ydych chi wedi gweld y fideo, cliciwch yma: <https://drive.google.com/file/d/1FM8keqekjpnSS4TCEQufjpdY7oG-oy3m/view?usp=sharing>

Yn atodol i'r ebost yma mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2019-20. Noder fod yr adroddiad yma yn adrodd am y flwyddyn academaidd 2019-20.

****PWYSIG**:** **Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod, ni fydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion tan ddydd Llun 11eg Ionawr 2021.** O ddydd Mawrth 5/1/21 i ddydd Gwener 8/1/21 bydd darpariaeth gofal ar gael i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol rhwng 07:50 – 15:15, yn ogystal â gofal yn y Clwb Hwyl 15:15-17:15 (codir y ffi arferol am ddarpariaeth y Clwb Hwyl). I'r perwyl yma, bydd rhaid i chi ein hysbysu os ydych chi angen y ddarpariaeth gofal drwy lenwi'r ffurflen byr yma ar-lein erbyn 9am 4/1/21 - dilynwch y ddolen yma i gwblhau a chyflwyno'r ffurflen: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1LvgQxUHGcm8VUNjdRTVdHTVVFMDJHMEY3VVQ1MUZRMlU0Ri4u

Byddwch yn derbyn rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth dysgu o bell ar ddydd Llun 4/1/21. Bydd plant y cyfnod sylfaen yn cael tasgau wedi eu gosod ar SeeSaw tra y bydd plant CA2 yn cael tasgau wedi gosod ar Google Classroom. Byddwn yn defnyddio ffyrdd gwahanol gyda dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. I'ch atgoffa: mae **dydd Llun 4/1/21 yn ddiwrnod HMS**, felly bydd yr ysgol ar gau i bob disgybl – ni fydd darpariaeth gofal ar gael ac ni fydd unrhyw dasg yn cael ei osod ar See-Saw / Google Classroom.

Dymunwn Nadolig llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi. Mwynhewch eich gwyliau haeddiannol, a chadwch yn saff!

Cofion gorau,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)